Adroddiad Adolygu Ymarfer Oedolion

Adolygiad Ymarfer Oedolion Estynedig

Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd

Cymru

Par: APR3 / 2016 / Conwy

Amlinelliad cryno o'r amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad

I'w gynnwys yma:-

- *Y cyd-destun cyfreithiol o ganllawiau mewn perthynas â pham fod yr adolygiad yn cael ei gynnal.*
- *Amgylchiadau sydd wedi arwain at yr adolygiad.*
- *Y cyfnod amser sy'n cael ei adolygu a pham.*
- *Crynodeb o amserlen digwyddiadau sylweddol i'w hychwanegu fel atodiad.*

Comisiynwyd Adolygiad Ymarfer Oedolion estynedig gan Gadeirydd Grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion Gogledd Cymru yn unol â'r canllawiau ac ar ôl cwblhau proses gwyno ac ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Rhoddwyd oedolyn A mewn cartref preswyl dementia arbenigol y tu allan i'r sir ym mis Chwefror 2013 gan Awdurdod A. Roedd y cartref preswyl yn ardal Awdurdod B. Cyn marwolaeth Oedolyn A 3 mis yn ddiweddarach, roedd Oedolyn A wedi cael tri chodwm yn y cartref a arweiniodd at gael ei derbyn i'r ysbyty yn gynnar ym mis Mai 2013. Yn anffodus, ni fu Oedolyn A wella o'r anafiadau o'i chodwm diwethaf a bu farw yn yr ysbyty ychydig ddyddiau ar ôl ei derbyn i mewn, cofnodwyd achos y farwolaeth gan y Crwner fel Emboledd yr Ysgyfaint, Thrombosis Gwythïen Ddofn a Thorri Asgwrn Chwith yr Arffed.

Yn dilyn marwolaeth Oedolyn A, gwnaed Atgyfeiriad Diogelu Oedolion Diamddiffyn (POVA) i Awdurdod B bedwar diwrnod yn ddiweddarach. Cynhaliwyd pum cyfarfod strategaeth dros y 9 mis canlynol a arweiniodd at gomisiynnu ymchwiliad POVA annibynnol ym mis Ebrill 2014. Cyhoeddwyd yr adroddiad ymchwiliad POVA annibynnol ym mis Mai 2014 a chynhaliwyd cyfarfod cynhadledd achos dilynol gyda'r teulu ym mis Gorffennaf 2014.

Yn dilyn cwblhau'r broses POVA cafwyd cwyn gan Awdurdod B a oedd yn ymwneud yn benodol â'r ffordd yr ymgymerwyd â'r ymchwiliad POVA. Aeth y gŵyn ymlaen i Banel Cam 3. Daeth y broses gwyno i ben ym mis Ebrill 2016 pan gyhoeddodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ei adroddiad terfynol.

Cyfarfu swyddogion Awdurdod B â theulu Oedolyn A ac argymhellodd pe na allent dderbyn canfyddiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r broses POVA, dylid atgyfeirio'r achos at Grŵp AYO Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru i adolygu unrhyw agweddau o ddysgu amlasiantaeth o'r achos hwn.

Teimlai'r Grŵp AYO fod yr ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru eisoes wedi nodi'r dysgu ac wedi eu cynnwys yn yr argymhellion. Cytunodd y grŵp mai cymryd yr argymhellion hyn a'u rhoi mewn Cynllun Gweithredu Rhanbarthol i'w gyflwyno i'r Bwrdd fyddai'r camau mwyaf priodol ac na fyddai symud ymlaen at AYO yn dod ag unrhyw ddysgu pellach.

Apeliodd y teulu yn erbyn y penderfyniad i beidio â chynnal AYO, cynhaliwyd Panel Apêl a chyrhaeddwyd penderfyniad i fynd ymlaen i AYO.

- Gwnaeth adroddiad Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru argymhellion, a oedd yn berthnasol i broses POVA tra byddai AYO yn ystyried dysgu aml-asiantaeth posibl o ddigwyddiadau cyn marwolaeth Oedolyn A.
- Gallai'r broses AYO gynnig adolygiad amlasiantaethol mewn perthynas â'r achos arbennig hwn a chynnig cronoleg glir o ddigwyddiadau yn yr amser hyd at farwolaeth Oedolyn A.
- Gallai rhan o'r AYO hefyd ystyried cadernid y broses POVA.
- Cytunodd y panel mai cylch gwaith AYO oedd peidio ag ail-ymchwilio i'r POVA ei hun nac unrhyw agweddau o bryderon mewn perthynas â'r gofal a gynigwyd (a gafodd ei glywed gan Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus).

Y Cylch Gorchwyl y Cytunwyd arnynt:

- Cyfranogiad Awdurdod A yn yr achos o 1 mis cyn mynd i'r ysbyty, hyd at ddyddiad y farwolaeth (4.5 wythnos) *ac a oedd hyn yn ddigonol ac yn briodol ai peidio.
- Datblygiad pecyn / cynllun gofal priodol ar dderbyn Oedolyn A i'r Cartref Preswyl, a rôl asiantaethau perthnasol wrth gynorthwyo neu gynghori yn hyn o beth.
- Craffu ar becyn / cynllun o'r fath a chamau gweithredu dilynol.
- Unrhyw ddryswch gyda pherchenogaeth yr achos.
- Gweithredu'r broses POVA, y llinell amser sy'n gysylltiedig â hyn ac a oedd yn briodol. O ystyried nad oedd yr atgyfeiriad diogelu wedi'i wneud tan ar ôl marwolaeth Oedolyn A.
- Nodi a ystyriwyd atgyfeiriad diogelu ar unrhyw adeg yn y mis cyn marwolaeth Oedolyn A, ac os nad felly, pam?
- Y cyfathrebu rhwng asiantaethau (yn benodol rhannu gwybodaeth ar draws asiantaethau) yn y broses POVA. Bydd hyn yn cynnwys archwilio canlyniad y cyfarfod POVA cychwynnol ym mis Mai 2013, pan gafodd swyddogion awdurdod A eu cyfeirio i ymchwilio i'r codymau a ddigwyddodd tra bod Oedolyn A yn preswylio yn y

cartref.

- Y cyfathrebu gyda'r teulu fel rhan o'r broses POVA.
- Cynhaliwyd trafodaeth yn yr ail gyfarfod o'r panel adolygu ar 13/3/17 ynglŷn â chyfranogiad AGC. Roedd y cadeirydd wedi ceisio arweiniad gan y grŵp AYO na ddylai AGC fel asiantaeth anstatudol fod yn rhan o'r panel. Gofynnwyd i'r adolygwyr gysylltu ag AGC yn ôl yr angen.

* Penderfynodd yr Adolygwyr, ar ôl archwilio'r amserlenni, i ymestyn y cyfnod ymchwilio i ddyddiad codwm gyntaf Oedolyn A yn y cartref gofal preswyl (estyniad o 13 diwrnod yn y cyfnod).

Ar ddiwedd y broses uchod, roedd y teulu wedi codi cyfres o 17 cwestiwn gydag uwch swyddogion Awdurdod B. Ar y pryd, dywedodd yr uwch swyddogion wrth y teulu byddai'r cwestiynau hyn yn cael eu trin drwy'r AYO. Fodd bynnag, mae llawer o'r cwestiynau y tu allan i'r Cylch Gorchwyl cytunedig ar gyfer AYO. Mae'r Adolygwyr wedi cynghori'r teulu, trwy'r broses AYO, bod rhai o'r cwestiynau cychwynnol yn parhau y tu allan i gylch gorchwyl yr AYO. Ni chytunwyd gyda'r teulu i ateb y cwestiynau fel rhan o'r Broses Adolygu Ymarfer Oedolion hwn, ond mae'r adroddiad yn cyfeirio at bob un o'r 17 cwestiwn.

Y Broses Adolygu

- Paratowyd llinellau amser gan y pedwar rhanddeiliad allweddol (Awdurdod A, Awdurdod B, y Cartref Gofal, y Bwrdd Iechyd)
- Roedd gan yr Adolygwyr fynediad at ddeunydd ysgrifenedig perthnasol arall, fel y bo'n briodol. Yn ystod trafodaethau, cododd materion i'w hegluro a gofynnodd yr Adolygwyr i'r gwasanaethau ymateb a darparu gwybodaeth bellach fel y bo'n briodol.
- Cyfarfu Cadeirydd yr AYO â theulu Oedolyn A i rannu cylch gorchwyl yr adolygiad, ei ddiben, ac i egluro beth oedd y tu allan o'i gwmpas.
- Cyfarfu'r Adolygwyr â theulu Oedolyn A i glywed am drefn y digwyddiadau a arweiniodd at farwolaeth Oedolyn A oddi wrthyn nhw. Ailadroddodd yr Adolygwyr gylch gwaith yr adolygiad (fel a wnaed yn flaenorol gan y Cadeirydd) a rhannodd y Cylch Gorchwyl gyda'r teulu.
- Darparodd teulu Oedolyn A flwch o wybodaeth a gohebiaeth a oedd yn ddefnyddiol i'r Adolygwyr wrth driongli gwybodaeth trwy gydol y broses adolygu.
- Cynhaliodd yr Adolygwyr ymweliad safle o'r Cartref Preswyl a chwrdd â'r Unigolyn Cyfrifol a'r Rheolwr Cofrestredig.
- Cysylltodd yr Adolygwyr â AGC a chawsant ffeil cartref gofal Oedolyn A.
- Cynhaliwyd Digwyddiad Dysgu i drafod gwersi a ddysgwyd cyn dyddiad y farwolaeth.
- Cynhaliwyd adolygiad pen desg aml-asiantaeth o'r prosesau POVA cychwynnol ac annibynnol a hwyluswyd gan yr Adolygwyr a mynychwyd gan gynrychiolydd annibynnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB) a Heddlu Gogledd Cymru.

Dysgu Ymarferol a Threfniadol

Nodi pob pwynt dysgu unigol sy'n codi yn yr achos hwn (gan gynnwys tynnu sylw at arfer effeithiol) ynghyd ag amlinelliad cryno o'r amgylchiadau perthnasol

Themâu allweddol a phwyntiau dysgu sy'n deillio o'r Adolygiad

1. **Derbyn i'r ysbyty a nodiadau ysbyty**
   - Teimlai staff y cartref gofal y gallai/dylai Oedolyn A fod wedi cael ei derbyn i'r ysbyty yn gynt.
   - Codwyd materion ynglŷn â gallu'r cartref gofal i herio barn gweithwyr iechyd proffesiynol (ee Meddyg Teulu, Nyrsys Ardal) ac y rhoddwyd diffyg pwysau i sylwadau a barn staff y Cartref Gofal am ddirywiad Oedolyn A.
   - Teimlai staff y Cartref Gofal nad oeddent yn cael eu gweld fel rhan o'r continwwm gofal.
   - Yn dilyn derbyniad i'r ysbyty, ymddengys bod nodiadau meddygol y ward yn dangos dim ond gwybodaeth a gafwyd oddi wrth y teulu mewn perthynas â gofal blaenorol Oedolyn A. Cydnabuwyd gan y derbyniwyd Oedolyn A drwy'r Adran Argyfwng, mai ychydig o amser oedd yna i gael gwybodaeth gefndir oddi wrth y Cartref Gofal. Fodd bynnag, arweiniodd hyn at gofnodi un safbwynt yn unig o'r gofal a gafodd Oedolyn A cyn cael ei derbyn i'r ysbyty.

2. **Cofnodi / dogfennaeth yn y cartref gofal**
   - Nododd y Cartref Gofal a'r Adolygwyr yr angen am welliannau mewn cadw cofnodion er mwyn sicrhau bod cyfathrebu anffurfiol a thrafodaethau gyda theuluoedd yn cael eu cofnodi'n gywir.
   - Nododd y cartref gofal a'r Adolygwyr fod angen cofnodi codymau'n gywir. Roedd y cartref wedi bod yn cofnodi digwyddiadau fel "daethpwyd o hyd iddynt ar y llawr" gan awgrymu codwm, ond dylid cofnodi'n fwy cywir o "daethpwyd o hyd iddynt yn eistedd ar y llawr yn y sefyllfa ..." ynghyd â manylion gan dystion, unrhyw anafiadau i'r unigolyn, unrhyw ddifrod i ddodrefn ac eitemau o amgylch yr unigolyn, ac ati. Codwyd y cwestiwn hwn gan y teulu yn eu 8fed ac 13eg cwestiwn yn y rhestr o gwestiynau a gyflwynwyd i Awdurdod B ac a fanylwyd yn Atodiad 3.
   - Nododd yr Adolygiad Annibynnol fod diffyg cynllun gofal yn y Cartref Gofal. Amlygwyd hyn hefyd yn ystod y broses AYO yma, ac roedd hyn yn cysylltu â'r cwestiwn a godwyd gan y teulu (C. 14).

3. **Cofnodi proses POVA. Dechreuwyd ymchwiliadau POVA gan Awdurdod B**
   - Ni chofnodwyd rhesymeg dros benderfyniadau a wnaed yng Nghyfarfodydd Strategaeth yng nghofnodion y cyfarfodydd, a soniodd Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am hyn hefyd yn ei ganfyddiadau. Mae'n amlwg bod angen sicrhau bod y dystiolaeth y seilir penderfyniadau arni yn cael ei chofnodi'n gywir yn y cofnodion cyfarfodydd perthnasol.

- Roedd fformat cofnodion y Cyfarfodydd Strategaeth yn ei gwneud hi'n anodd cofnodi neu nodi pwyntiau allweddol yn glir. Y pwyntiau allweddol yw:
  a) Cofnod o gamau dilynol o gyfarfodydd blaenorol.
  b) Cofnod clir o benderfyniadau allweddol, pwynt fesul pwynt, ynghyd â chamau gweithredu clir, cyfrifoldeb am gamau gweithredu ac amserlenni. (Enghraifft oedd cofnodion y 5ed Cyfarfod Strategaeth lle cofnodwyd llawer o fanylion ynghylch yr Ymchwiliad Annibynnol, ond ychydig a gofnodwyd am y camau a gymerwyd, gan bwy a phryd.)
  c) Yn ogystal, dylai'r camau gweithredu gael eu diffinio'n eglur, nodi'r unigolion cyfrifol ac amserlenni i'w cwblhau.
  d) Canlyniad cyffredinol yr ymchwiliad POVA oedd datganiad o 'opsiynau' canlyniad y broses POVA yn unol â gweithdrefnau POVA, a diffyg cynnwys naratif. Roedd y canlyniad a gofnodwyd yn y cofnodion yn nodi "dim niwed sylweddol", roedd yr ymadrodd hwn yn anodd iawn i'r teulu ei ddeall. Teimlai'r Adolygwyr fod y datganiad yn anghyflawn ac y dylai o leiaf fod wedi cynnwys y geiriau "... yng nghyd-destun camdriniaeth". Nododd yr Adolygwyr fod y canlyniad POVA a gofnodwyd ar y System Gwybodaeth Cleientiaid yn adlewyrchu canfyddiadau'r ymchwiliad POVA yn fwy cywir - sef "... o ran tebygolrwydd, roedd yn annhebygol y bu camdriniaeth". Dylai'r geiriad hwn fod wedi'i gofnodi yn y cofnodion cyfarfod ac y byddai wedi rhoi mwy o eglurder i'r teulu.
  e) Nid oedd yr adran Cynllun Diogelu o'r cofnodion wedi'i nodi'n eglur, nid oedd yr wybodaeth a gofnodwyd yn yr adran hon yn cynnwys cynllun diogelu ond roedd yn grynodeb o'r drafodaeth a'r materion a godwyd. Nid oedd yn manylu ar y camau i'w cymryd, gan bwy a phryd i amddiffyn eraill yn y lleoliad gofal.
- Roedd llais teulu Oedolyn A yn absennol o'r broses POVA.
- Trwy gydol y broses POVA, nid oedd unrhyw dystiolaeth y cynigiwyd Eiriolaeth i gefnogi teulu Oedolyn A.
- Cymerodd y broses POVA amser maith i'w gwblhau. Fodd bynnag, roedd yr Adolygwyr o'r farn bod yr oedi yn ddilys oherwydd eu bod o ganlyniad i gynnal prosesau yn gyfochrog, e.e. Ymchwiliad y Crwner a chanfyddiadau'r Ymchwiliad Annibynnol.
- Nid oedd y llinellau amser yn darparu tystiolaeth bod unrhyw asiantaeth a oedd yn gysylltiedig â gofal Oedolyn A, cyn ei marwolaeth, wedi ystyried gwneud atgyfeiriad POVA.

4. Cyfathrebu

- Ymddengys nad oedd perchnogaeth glir o gyfathrebu â'r teulu. Ni nodwyd unrhyw asiantaeth (Awdurdod A nac Awdurdod B) fel y prif gyswllt i'r teulu ac nid oedd unrhyw dystiolaeth o gysylltiad rhagweithiol gyda'r teulu. Mae hyn yn gysylltiedig â'r 10fed cwestiwn a godwyd gan y teulu.
- Nid oedd unrhyw dystiolaeth ddogfenedig o drafodaethau gyda'r teulu ynglŷn â'u dull cyfathrebu gorau nac amlder y cyfathrebu hynny.
- Cynghorwyd y teulu i wneud cais am gofnodion cyfarfodydd POVA trwy Gais Rhyddid i Wybodaeth. Teimlai'r Adolygwyr y byddai cefnogaeth i'r teulu drwy'r broses hon wedi creu llai o rwystr i'w oresgyn. Codwyd y pwynt hwn gan y teulu yn eu 6ed cwestiwn.

- Er na chafodd yr Adolygwyr dystiolaeth o gofnodion cyfarfodydd wedi'u golygu, cadarnhawyd gan Awdurdod B bod cofnodion y Cyfarfodydd Strategaeth yn cael eu golygu a chodwyd hyn eto yn y 6ed cwestiwn a ofynnwyd gan y teulu. Er bod angen golygu cofnodion, dylid rhoi gofal i sicrhau bod hyn yn cael ei gadw i'r lleiafswm gofynnol.
- Nid oedd unrhyw dystiolaeth ddogfenedig bod gweithwyr proffesiynol wedi egluro'r broses POVA i'r teulu, goblygiadau ymchwiliadau troseddol a di-droseddol a'r baich tystiolaeth sydd ei hangen.
- Nid oedd unrhyw dystiolaeth ddogfenedig bod yr amserlenni ar gyfer y broses POVA wedi'u cyfathrebu'n glir gyda'r teulu. Nid yw'n ymddangos bod unrhyw wybodaeth ddogfenedig wedi'i rhannu gyda nhw ynghylch yr oedi cyfreithlon a achoswyd gan Broses y Crwner a'r Ymchwiliad Annibynnol.

5. Lleoliadau y tu allan i'r sir / Cyfranogiad mewn prosesau POVA y tu allan i'r Sir.

- Cyn marwolaeth Oedolyn A, ymddengys nad oedd unrhyw faterion wedi'u dogfennu gyda'r broses lleoli y tu allan i'r sir ar gyfer yr unigolyn hwn.
- Gofynnodd y Cartref Gofal am Weithiwr Cymdeithasol o Awdurdod A, i adolygu lleoliad Oedolyn A yn dilyn tor yn y berthynas rhwng y cartref a'r teulu. Ni chynhaliwyd yr adolygiad hwn.
- Nid oes unrhyw dystiolaeth y cafodd Awdurdod A unrhyw gyswllt pellach gyda'r Cartref Gofal, Oedolyn A na'r teulu nes iddynt gael gwybod am farwolaeth Oedolyn A.
- Yn dilyn marwolaeth Oedolyn A, gwnaeth Awdurdod A Atgyfeiriad POVA i Awdurdod B oherwydd pryderon y teulu ynglŷn â nifer y codymau a gafodd Oedolyn A yn ystod y 6 wythnos cyn y farwolaeth.
- Cynhaliwyd Pum Cyfarfod Strategaeth yn ystod yr ymchwiliad POVA 15 mis. Dim ond i'r 4ydd a'r 5ed Cyfarfod Strategaeth a'r Gynhadledd Achos yn unig yr aeth Awdurdod A. Gwahoddwyd Awdurdod A i'r 1af, 2il a 3ydd Cyfarfod Strategaeth, ond anfonwyd ymddiheuriadau.
- Nid oes tystiolaeth ddogfenedig o unrhyw drafodaeth yn cael ei chynnal rhwng Awdurdod A ac Awdurdod B i benderfynu pwy fyddai'r cyfathrebwr arweiniol gyda'r teulu. Dylai hyn fod wedi'i benderfynu yn y cyfarfod strategaeth POVA cychwynnol.

6. Trosolwg / cynllunio gofal

- Darparwyd tystiolaeth nad oedd Cynllun Gofal a Chymorth yn ei le ar adeg derbyn Oedolyn A i'r Cartref Gofal.
- Nid oes unrhyw dystiolaeth bod Cynllun Gofal a Chymorth dilynol yn ei le ar gyfer Oedolyn A yn ystod ei hamser yn y Cartref Gofal.
- Mae'r Cartref Gofal wedi mynegi pryderon anecdotaidd na allent fodloni anghenion Oedolyn A bellach ac y dylid ei hystyried ar gyfer lleoliad cartref nyrsio. Nid oes unrhyw dystiolaeth ddogfenedig bod hyn yn cael ei archwilio ymhellach.
- Mae'r Cartref Gofal hefyd yn mynegi pryderon anecdotaidd am eu gallu i reoli rhyngweithiadau cadarnhaol gyda'r teulu.

Gwella Systemau ac Ymarfer

Er mwyn hyrwyddo dysgu o'r achos hwn, nododd yr adolygiad y camau canlynol ar gyfer y Bwrdd a'i aelodau asiantaethol a'r canlyniadau gwella disgwyliedig: -

Argymhellion:

1. Cadw Cofnodion:
   Roedd cadw cofnodion yn y Cartref Gofal yn gyfyngedig, yn enwedig mewn perthynas â:
   a. Cofnodi codymau yn gywir.
      Dylid gwella system gofnodi'r cartref gofal er mwyn darparu gwybodaeth fanwl ynghylch amgylchiadau codymau, y lleoliad, tystion, y rhai sy'n bresennol, anafiadau a ddioddefodd, difrod i eiddo gerllaw, ac ati. Byddai hyn wedi helpu gyda mynd i'r afael â phryderon y teulu a godwyd yn eu 4ydd, 8fed a 13eg cwestiwn i Awdurdod B.

      Mae cofnodion mewn perthynas â chodymau Oedolyn A yn cyfeirio at "Wedi dod o hyd iddi ar y llawr" (Nodiadau Gofal Sylfaenol 28.03.13; Adroddiad Ymchwiliad Diogelu Oedolyn gan Awdurdod B 19.05.14).

   b. Cofnodi cyfathrebu geiriol â theuluoedd.
      Argymhellir cofnodi gwybodaeth am bwy a oedd yn rhan yn y cyfathrebu, pa faterion a drafodwyd, pa gamau a gytunwyd (os yn briodol) a phwy fyddai'n gyfrifol am y camau hynny.
      Mae angen gwella cofnodion y Cartref Gofal o unrhyw gyfathrebu llafar gyda theuluoedd ac asiantaethau eraill i ddarparu mwy o fanylion.

2. Y broses POVA:
   a. Nododd yr Adolygwyr, o ddechrau llinell amser AYO i farwolaeth Oedolyn A, na chanfuwyd tystiolaeth ddogfennol bod asiantaethau wedi ystyried codi neu wedi codi Atgyfeiriad Diogelu mewn perthynas ag Oedolyn A. Tra bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 bellach yn gosod 'dyletswydd i adrodd' ar asiantaethau, cyn gweithredu'r Ddeddf ym mis Ebrill 2016, roedd disgwyl i asiantaethau ystyried atgyfeiriadau Diogelu a chofnodi eu rhesymau dros beidio â chyflwyno atgyfeiriadau os penderfynwyd hynny. **Gan fod deddfwriaeth wedi rhagori ar yr argymhelliad hwn, gobeithir pe bai'r un sefyllfa yn codi yn y dyfodol, byddai asiantaethau yn adrodd eu pryderon ar unwaith.** Mae hyn yn mynd i'r afael â'r 13eg cwestiwn a godwyd gan y teulu.
   b. **Argymhellir gwella fformat cofnodion y Cyfarfodydd Strategaeth i'w gwneud yn haws i'w darllen. Dylai'r cofnodion adlewyrchu'r drafodaeth yn yr ystafell yn gywir ac nid dyblygu'r wybodaeth a gyflwynir, y gellir ei chyflwyno fel atodiad.** Enghraifft o hyn oedd yr Adroddiad Ymchwilio Annibynnol, y cofnodwyd ei gynnwys yn fanwl yn y cofnodion Cyfarfod Strategaeth ar 6ed Mai 2014).

c. **Argymhellir bod teuluoedd yn cael cymorth i gael gwybodaeth o dan y prosesau cais mynediad at wybodaeth perthnasol.** Mae hyn yn mynd i'r afael â'r 6ed cwestiwn a godwyd gan y teulu.

d. Dylai camau gweithredu o'r Cyfarfodydd Strategaeth adlewyrchu'r penderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod.

'Argymhellir cwblhau Cynllun Gweithredu clir (gan gynnwys rolau, cyfrifoldebau ac amserlenni) o fewn cofnodion y Cyfarfod Strategaeth a bod y Cynllun Gweithredu hwn yn cael ei adolygu mewn cyfarfodydd dilynol a chofnodi'r canlyniadau. Mae hyn yn mynd i'r afael â'r 16eg cwestiwn a godwyd gan y teulu.

Enghraifft yw'r Camau Gweithredu a gofnodwyd yn y Cyfarfod Strategaeth a gynhaliwyd ar 22 Mai 2013. Ni adlewyrchwyd y camau hyn yn y trafodaethau a gofnodwyd ym mhrif gorff y cofnodion. Nododd yr Adolygwyr hefyd nad oedd pob cam a nodwyd yn y cofnodion Cyfarfod Strategaeth yn cofnodi pwy fyddai'n gweithredu. Yn olaf, roedd y dyddiad erbyn pryd y dylai'r camau gweithredu gael eu cwblhau naill ai'n dweud "ASAP" neu'n cael ei adael yn wag. Nid oedd cofnodion cyfarfodydd strategaeth yn cofnodi a oedd camau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol wedi'u cwblhau ac nid oedd unrhyw weithgareddau dilynol yn cael eu cofnodi.

e. Argymhellir bod yr adran Cynllun Diogelu Unigolyn/ Cyffredinol gael ei lenwi i gofnodi'n gywir y cynlluniau diogelu cyffredinol a weithredwyd, hyd yn oed os yw'r unigolyn dan sylw wedi marw.

Nid oedd y manylion a gofnodwyd yn adran *'Cynllun Diogelu Unigolyn/ Cyffredinol'* cofnodion y Cyfarfod Strategaeth yn cynnwys manylion am y cynllun diogelu neu'r canlyniadau a ragwelwyd o'i weithredu. Mae enghraifft o hyn yng nghofnodion y Cyfarfodydd Strategol a gynhaliwyd ar 22 Mai 2013, 22 Tachwedd 2013 a 28 Chwefror 2014.

f. **Argymhellir nad yw'r rhesymau dros benderfyniadau a wneir mewn Cyfarfodydd Strategaeth yn gyfyngedig i'r 'opsiynau' yn y Gweithdrefnau POVA ond y darperir mwy o fanylion yn y naratif ynghyd â rhesymau/ rhesymeg.** Nid yw cofnodion y Cyfarfodydd Strategaeth yn cofnodi'r rhesymeg dros benderfyniadau neu gasgliadau yn gywir. Cofnodwyd hyn hefyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei adroddiad ysgrifenedig.

3. Cyfathrebu:
    a. **Argymhellir bod taflen yn cael ei llunio sy'n esbonio'r broses Diogelu Oedolion**, gan roi sylw penodol i'r ymchwiliadau troseddol a di-droseddol (gan gynnwys esboniad o'r Faich Dystiolaeth), rôl y Crwner, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Cefnogaeth Eiriolaeth a'r Broses Gwyno.

b. **Argymhellir creu Cytundeb Cyfathrebu gyda'r Defnyddiwr Gwasanaeth a / neu eu teulu i gytuno ar bwy fydd eu prif bwynt cyswllt proffesiynol, amlder cyfathrebu y cytunwyd arno gan y teulu neu'r Defnyddiwr Gwasanaeth a'r dull cyfathrebu a ffafrir** (e.e. e-bost , galwad ffôn, ac ati)**.**

c. Argymhellir datblygu canllawiau i gynorthwyo darparwyr a chomisiynwyr i gefnogi'r cyfathrebu rhwng Cartrefi Gofal a theuluoedd pan fo anawsterau a gwahaniaethau barn yn codi.

4. Ymgysylltiad yn y Broses POVA:
Argymhellir bod yr holl Awdurdodau Lleol sy'n rhan o broses Diogelu Oedolion yn mynychu Cyfarfodydd Strategaeth, yn cymryd cyfrifoldeb am gamau gweithredu perthnasol ac yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.
Mae cofnodion y Cyfarfodydd Strategaeth a gynhaliwyd ar 22 Mai 2013, 14 Mehefin, 2013 a 22 Tachwedd 2013 yn cofnodi ymddiheuriadau gan Awdurdod A.

Pwyntiau i'w nodi:

- Roedd y Cartref Gofal ac Awdurdod A yn fodlon cymryd rhan weithredol yn y Digwyddiad Dysgu AYO (noder: Ni wahoddwyd Awdurdod B i'r Digwyddiad Dysgu gan ei bod yn canolbwyntio ar y digwyddiadau a ddigwyddodd cyn marwolaeth Oedolyn A ac nid oedd Awdurdod B yn rhan ar y pwynt hwn). Defnyddiodd y Cartref Gofal ac Awdurdod A'r cyfle i fyfyrio ar arfer proffesiynol ar adeg marwolaeth Oedolyn A a chyfleu hynny mewn ymarferion cyfredol.
- Trwy gydol yr amser yr arhosodd Oedolyn A yn y cartref gofal ymwelwyd â hi yn rheolaidd gan nyrsys ardal / cymhorthwyr gofal iechyd a meddygon teulu - a oedd yn nodi bod ei hanghenion iechyd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.
- Teimlai'r Adolygwyr fod y penderfyniad i gomisiynu ymchwilydd POVA annibynnol yn gam cadarnhaol ac er bod yr ymchwiliad hwn wedi gohirio'r Broses POVA roedd yr wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad yn gynhwysfawr ac roedd y canlyniad terfynol yn elwa ohono.
- Roedd gwaith papur cefnogol a oedd yn berthnasol i'r Adolygiad AYO hwn yn cyfeirio at sesiwn 'Gwersi a Ddysgwyd' a gynhaliwyd gan Feddyg Teulu Oedolyn A. Adroddodd y Meddyg Teulu ddeilliannau'r digwyddiad i'w tîm Llywodraethu Clinigol ar gyfer gofal sylfaenol o fewn y Bwrdd Iechyd a chadarnhaodd y Feddygfa bod llythyr wedi cael ei anfon at y teulu yn manylu ar ganlyniadau'r sesiwn. Noder. Ni welodd yr adolygwyr y llythyr hwn na'r canlyniadau.
- Trwy gydol yr Adolygiad, daeth yn amlwg nad oedd llais y teulu mor amlwg ag y gallai fod. Codwyd pryderon dilys ynglŷn â gofal Oedolyn A gan y teulu, ond nid oedd y rhain yn cael eu lleisio bob amser ac efallai y cawsant eu diystyru pan oedd y berthynas rhwng y teulu a gweithwyr proffesiynol yn anodd.
- Roedd perthynas yr Adolygwyr gyda'r teulu yn un cadarnhaol ac er gwaetha'r ffaith bod y teulu wedi dioddef llawer o ofid, roeddent yn fodlon cymryd rhan weithredol yn y broses AYO a rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i'r adolygwyr. Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r teulu am eu hymgysylltiad.

Casgliadau:

Barn y Cadeirydd ac Adolygwyr yr Adolygiad Ymarfer Oedolion hwn yw, pe bai'r holl argymhellion a nodir uchod yn eu lle, byddai gwelliant o ran ymarfer.

Yn anffodus, ni all yr Adolygwyr ddod o hyd i unrhyw dystiolaeth i awgrymu pe bai'r arferion a argymhellwyd wedi cael eu dilyn yn yr achos hwn, y byddai wedi arwain at ganlyniad gwahanol.